Kirsty Williams AC/AM Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Cabinet Secretary for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-P/KW0848/18

Lynne Neagle AC / AM
Cadeirydd y Pwyllgor PPIA Cynulliad
Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

9 Mawrth 2018

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 13 Chwefror, ynghylch yr ohebiaeth â Richard Knights, arweinydd ymgyrch grŵp Bargen Deg i Athrawon Cyflenwi, dyddiedig 30 Ionawr.

Fe gofiwch nad oedd Tasglu'r Model Cyflenwi yn gallu argymell model cyflog cyflenwi canolog ym mis Chwefror 2017. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion ymarferol ar gyfer cefnogi a datblygu athrawon cyflenwi. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ymchwilio i fodelau newydd eraill ar gyfer athrawon cyflenwi. Mae'r model sy'n gweithredu yng Ngogledd Iwerddon, sy'n cael ei hyrwyddo gan grŵp Bargen Deg i Athrawon Cyflenwi yn annatod gysylltiedig â chyflog ac amodau athrawon (gan gynnwys athrawon cyflenwi).

Mae'r pŵer i bennu cyflog ac amodau athrawon yn mynd i gael ei drosglwyddo'n ffurfiol i Weinidogion Cymru. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd ym mis Medi 2018. Medi 2019 fydd y dyddiad cynharaf i system cyflog athrawon ddod i rym yng Nghymru. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n trafod gyda'r sector sut gall y pwerau hyn greu cyfleoedd i bennu cyflog athrawon fel sail i'r hyn rydym am ei weld yn y system addysg ehangach, codi safonau, a chefnogi a datblygu'r proffesiwn addysgu, gan gynnwys y rheini sy'n gwneud gwaith cyflenwi dros dro.

Mae'n bwysig pwysleisio nad yw Llywodraeth Cymru yn cyflogi athrawon yn uniongyrchol - cyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n gwneud hynny.

Pan gefais gyfarfod â grŵp Bargen Deg i Athrawon Cyflenwi fis Hydref diwethaf, fe'i gwnes yn glir mai addysgu a dysgu o safon uchel sydd wrth wraidd ein hymgyrch genedlaethol i wella addysg yng Nghymru, ac mae fy ymrwymiad i'r weledigaeth honno yn parhau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae mwy i'w wneud o ran gweithio gyda'r sector, gan gynnwys awdurdodau cyflogi ac ysgolion, i ddatblygu ffyrdd newydd o helpu gyda threfniadau cyflenwi dros dro, ond bydd hyn yn cymryd amser. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn y cyfamser yn edrych ar bob system amgen, yn ogystal â threialu ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu athrawon cyflenwi, ee y peilot clwstwr cyflenwi mewn ysgolion a gyhoeddais ar 24 Hydref 2017, peilot gwerth £2.7m. Mae'r peilot yn cael ei gyflwyno ar draws pymtheg o ardaloedd awdurdod lleol ar hyn o bryd. Y nod yw treialu model mwy cynaliadwy, cydweithredol sy'n helpu athrawon sydd newydd gymhwyso gyda'u dysgu proffesiynol, gan sicrhau budd i ysgolion a dysgwyr.

Yr amcan yw recriwtio tua phum deg o athrawon sydd newydd gymhwyso i weithio ar draws clystyrau o fwy na chant o ysgolion yng Nghymru. Mae'n ddyddiau cynnar; fodd bynnag, mae'r peilot yn dystiolaeth o'n hymrwymiad i sicrhau bod athrawon sydd newydd gymhwyso, a allai fel arall eu cael eu hunain mewn rolau cyflenwi, yn cael eu cefnogi'n llawn ar ddechrau eu gyrfa. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r peilot yn ofalus i weld a yw'n fodel ymarferol y gallai cyflogwyr ei gyflwyno'n ehangach.
Rydym yn parhau i gefnogi datblygiad proffesiynol athrawon cyflenwi. Hyd yma, mae dros ddau gant o athrawon wedi cofrestru i gael mynediad personol i Hwb. Mae tudalennau rhwydweithio Hwb yn fyw bellach hefyd. Ac mae gwaith pellach ar y gweill i sefydlu sut gall rhaglenni hyfforddiant consortia rhanbarthol gefnogi a helpu athrawon cyflenwi sy'n gweithio ar sail tymor byr yn well.

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddwyd canllawiau '*Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol*', gyda'r nod o rannu'r arferion da y mae ysgolion ac awdurdodau lleol wedi eu mabwysiadu ar gyfer rheoli absenoldeb, (sef absenoldeb sydd wedi ei gynllunio ac sydd heb ei gynllunio). Cyhoeddwyd y rhain ochr yn ochr â chanllaw cyfeirio hwylus i helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i fodloni eu hanghenion cyflenwi, gan sicrhau ar yr un pryd bod rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n rhan o'r gwaith o gomisiynu athrawon cyflenwi dros dro yn glir.

Rydym hefyd yn datblygu gwell trefniadau i gasglu data ar y gweithlu cyflenwi fel rhan o'r trefniadau arfaethedig i gasglu data am y gweithlu drwy'r cyfrifiad. Bydd y gwaith casglu data yn rhoi gwybodaeth i ni ar niferoedd ein hathrawon cyflenwi ac am ba mor hir maent yn cyflenwi, gan ein helpu i greu data mwy cywir ar y gweithlu, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio'n hyblyg.

Mae swyddogion yn parhau i gysylltu'n rheolaidd ac yn uniongyrchol ag asiantaethau cyflenwi masnachol yng Nghymru, awdurdodau lleol ac ysgolion i'w hatgoffa o'u rhwymedigaethau statudol o ran diogelu disgyblion, gan gynnwys yr angen i ddilyn y drefn o ran gwiriadau hunaniaeth, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chymwysterau.

Mae'r Gweithgor Cyflenwi, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector addysg ehangach, yn parhau i gwrdd bob dau neu dri mis. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gweithlu addysg a chyflogwyr er mwyn helpu i roi argymhellion y Gweithlu ar waith, a thrafod, ystyried a hwyluso'r atebion ymarferol er mwyn datrys problemau perthnasol wrth iddynt godi.

Mae llawer o'r pryderon a godwyd gan y grŵp lobïo yn ymwneud â defnyddio asiantaethau cyflenwi masnachol i ateb y galw am athrawon pan fydd staff yn absennol, a defnyddio'r asiantaeth gyflenwi breifat, New Directions, darparwr fframwaith gwasanaeth presennol awdurdodau lleol Cymru. Bydd swyddogion o'm hadran i, Gwerth Cymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cwrdd cyn hir i drafod telerau cytundeb fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a fydd yn dod i ben ym mis Awst 2018. Rwyf ar ddeall bod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, ar ran awdurdodau lleol, wedi mynd ati i gynnig estyniad o flwyddyn tra bydd y trefniadau aildendro yn cael eu hystyried.

Fodd bynnag, nid yw'r ffaith mai New Directions yw darparwr y fframwaith presennol yn golygu na chaiff ysgolion wneud trefniadau cyflenwi eraill neu gysylltu'n uniongyrchol ag athrawon cyflenwi unigol. Rydym wedi bod yn glir y dylai manyleb unrhyw gytundeb yn y dyfodol fod yn addas. Gwahoddwyd grŵp Bargen Deg i Athrawon Cyflenwi hefyd i gyfarfod gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i fod yn rhan o'r broses aildendro.

Rydym yn cadw llygad ar y newidiadau arfaethedig y mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn San Steffan yn ymgynghori arnynt ar hyn o bryd. Bydd y diwygiadau a gynigiwyd i Reoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010 yn helpu i fynd i'r afael â phryderon a godwyd ynghylch telerau darpariaeth y Rhanddirymiad Swedaidd, defnyddio cwmnïau ambarél a gwell trefniadau arolygu mewn asiantaethau recriwtio a chyflogi. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad mewn ymateb i Adolygiad Taylor o Arferion Gwaith Modern a gyhoeddwyd haf diwethaf. Os caiff newidiadau eu gwneud i'r rheoliadau, bydd hynny'n delio â llawer o'r rhwystrau y mae athrawon cyflenwi sy'n cael eu cyflogi gan asiantaethau masnachol yn honni eu bod yn eu hwynebu.

Efallai y bydd o fudd ichi wybod, ers imi gwrdd â chynrychiolwyr grŵp Bargen Deg i Athrawon Cyflenwi ym mis Hydref, ein bod wedi parhau i ohebu'n uniongyrchol â nhw. Cyfarfu aelodau o'r grŵp â'm swyddogion a chynrychiolwyr y Gweithgor Cyflenwi ar 21 a 22 Chwefror i drafod eu pryderon yn fanwl. Gwahoddwyd Mr Knights hefyd i gwrdd â swyddogion, ond nid oedd yn gallu.

Hoffwn roi sicrwydd i'r Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymchwilio i bob opsiwn sydd ar gael i ni i gefnogi athrawon cyflenwi yng Nghymru. Rwyf am weld modelau llwyddiannus o ddarparu athrawon cyflenwi dros dro yn ein hysgolion, ac rydym yn gweithio tuag at system lle mae staff addysgu o safon uchel ar gael, gan effeithio'n gadarnhaol ar ddeilliannau addysgol, a datblygu staff dros dro yn briodol.

Yr eiddoch yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education